Cofnodion Pwyllgor Cyllid Cyngor Tref Llandeilo, a gynhaliwyd ar nos Fercher yr 8fed o Chwefror 2017 yn Neuadd y Sir, Llandeilo am 8.00yh.

Presennol: Y Maer y Cyng. Colin Jenkins, y Cyng. Eifion Davies,
y Cyng. Dawn Wallace, y Cyng. Julia Jones, y Cyng. Carol Watts,
y Cyng. Robert Jones, y Cyng. Edward Thomas, y Cyng. Rebecca Butcher,
y Cyng. Owen James, y Cyng. Gordon Kilby, y Cyng. Richard Wallace.
Mr Roger Phillips (Clerc Tref)
Mr Christopher Plummer (Swyddog Cyllid)
Mr Desmond Davies (Swyddog Technegol)

Ymddiheuriadau: Y Cyng. Geraint Price

Cof 281/ Chwef / 17. Datganiadau o Fuddiant. Dim.

Cof 282 / Chwef / 17 Cyfrifon i'w talu

Cyfrifon i'w talu	Net	TAW	Cyfanswm
1415 Mr Flag (baneri'r dref)	£ 90.00	£ 18.00	£ 108.00*
Orchardweb (diweddaru'r wefan)	£ 105.00		£ 105.00*
Orchardweb (posteri, agendâu ar y wefan)	£ 25.00		£ 25.00*
D.Davies (Vis)	£ 11.98		

Bacs * Siec #

Argymhellwyd bod y rhain yn cael eu talu. Cynigwyd gan y Cyng. Colin Jenkins ac eiliwyd gan y Cyng. Owen James. Roedd pawb o blaid.

Cof 283 / Chwef / 17 Incwm a dderbyniwyd ers Ionawr y 1af 2017 hyd yn hyn

Llog 6 mis a gronnwyd ar y bond adnau o £30,000	£ 37.81
Nawdd Hysbyseb Parc Penlan	£ 25.00

Cof 284 / Chwef / 17 Balansau'r Cyfrifon

Cyfrif Cyfredol CTLl (fel ar 05/ 2 /17)	£ 20,376.60
Cyfrif Cadw CTLl (fel ar 05 / 2/17)	£ 1,917.34
Cyfrif Maer CTLl (Barclays)(5/2/17)	£ 1,400.00
Bond Adnau Llog Uchel	£ 30,000.00

Cof 285 / Chwef / 17 Materion Ariannol Eraill

1.Adroddiad ar y Gwiriad Chwarterol

Fe wnaeth Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid gynnal 6 gwiriad, ar hap, i wirio bod manylion yr anfonebau a rhifau'r cofnodion cyfatebol yn gywir. Roedd y cofnodion a wiriwyd fel a ganlyn:-

Cof 177	Zurich Insurance	BP 58	£ 3,066.33

Cof 208	Pendragon Fireworks	BP 67	£ 4,800.00
Cof 208	Dilwyn Thomas	BP 75	£ 7,860.00
Cof 226	PC World	BP 80	£ 2,480.99
Cof 228	C.B.Sams	BP 84	£ 370.50
Cof 241	Sant Ioan	Siec 102162	£ 50.00

Roedd pob un o'r rhain yn gywir.

2. Cyflwynodd y Swyddog Cyllid grynodeb o Incwm a Gwariant i'r Cynghorwyr.
3. Cystadleuaeth Ffenestr Nadolig
   Cynigodd y Cyng. Colin Jenkins y gwobrau canlynol ar gyfer enillwyr y gystadleuaeth eleni, ac eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Edward Thomas:-

Gwobr 1af	£ 50	Bentley
2il Wobr	£ 30	Cutting Edge
3ydd Wobr	£ 20	Mrs Brown's

4.Ceisiadau am Gymorth Ariannol.
   i) URDD Blaenau Tywi.
   Cynigodd y Cyng. Colin Jenkins bod y Clerc yn gofyn i'r trefnwyr gyflwyno mantolen cyn y gellir rhoi ystyriaeth i'r cais, yn unol â Rheoliadau Ariannol y Cyngor, ac eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Dawn Wallace. Roedd pawb o blaid.
5. Hyfforddiant TG i'r Staff
   Cynigodd y Cyng. Edward Thomas bod y Swyddog Cyllid yn trafod gydag Easy PC, i drefnu sesiynau hyfforddi ar gyfer y Cynghorwyr a'r staff, ar ddyddiadau sy'n gyfleus i bawb. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Colin Jenkins. Roedd pawb o blaid.
6. Adroddiad ar Drosglwyddo Asedau
   Cynigodd y Cyng. Edward Thomas bod Cyfarfod Arbennig o'r Cyngor Llawn yn cael ei gynnal ar nos Fercher yr 8fed o Fawrth, i roi ystyriaeth i'r adroddiad a baratowyd gan y syrfewyr annibynnol, ac eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Gordon Kilby. Roedd pawb o blaid. Cytunwyd y byddai Cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio'n cychwyn am 6.30yh y noson honno, gyda Chyfarfod y Pwyllgor Cyllid i ddilyn am 7.00yh.
   Yna, byddai Cyfarfod Arbennig o'r Cyngor Llawn yn cychwyn am 7.30yh.
7. Cynhelir Etholiadau Cynghorau Tref a Chymuned Lleol ar ddydd Iau'r 4ydd o Fai 2017.
   Cynigodd y Cyng. Colin Jenkins bod swm o £5,000 yn cael ei neilltuo o'r cronfeydd, fel cost fras etholiad, os caiff un ei alw yn ardal Cyngor Tref Llandeilo. Roedd pawb o blaid.
8. Cafwyd cais gan y Maer, y Cyng. Colin Jenkins, bod y Clerc yn dosbarthu manylion y Wardiau maent yn eu cynrychioli ar hyn o bryd i bob un o'r Aelodau.

Cof 286 / Chwef /17 Doedd dim Gohebiaeth yn ymwneud â Chyllid

Cof 287/ Chwef / 17 Doedd dim Goblygiadau Ariannol i Adroddiad y Swyddog Technegol

Cof 288 / Chwef / 17 Doedd dim eitemau arall o fusnes roedd y Cadeirydd, oherwydd amgylchiadau arbennig, yn dymuno eu hystyried fel mater o frys, yn unol ag adran 100B(4)(B) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.27yh.